Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Beca
# Efailwen
# Clunderwen
# SA66 7UX

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Beca

Lleolir Ysgol Beca ym mhentref Efailwen yng ngorllewin sir Caerfyrddin. Mae 63 disgybl ar y gofrestr rhwng 4 a 11 oed. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth cymysg eu hoedran.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 4% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol ia na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae mwyafrif y disgyblion yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg gartref. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a chyfrwng yr addysgu a'r dysgu. Mae'r ysgol yn nodi bod gan 18% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers 2009 ac yn bennaeth ar ysgol gyfagos ers 2013. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Rhagfyr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae llais y disgyblion yn amlwg yng ngwaith yr ysgol ac maent yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at eu lles a'u dysgu. Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ac ysgogol sy'n cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob un yn dangos agwedd bositif tuag at eu dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion wedi ei gwreiddio'n gadarn ac mae egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus mewn ystod eang o weithgareddau ymarferol.

Mae ethos cymunedol Cymreig i'r ysgol. Mae partneriaeth dda yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol sy'n sicrhau eu bod yn cymryd rôl lawn yn addysg eu plentyn. Mae'r disgyblion yn gwrtais ac yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn dangos balchder wrth siarad am eu cymuned.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn darparu arweiniad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn sydd wedi ei seilio ar gynnal a chodi safonau. Trwy ddefnyddio ystod eang o weithgareddau arfarnu cadarn, mae gan arweinwyr wybodaeth drylwyr am safonau a'r ddarpariaeth.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion y cyfnod sylfaen ysgrifennu'n annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag effaith cwricwlwm creadigol ac ymarferol ar safonau ac annibyniaeth disgyblion, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol yn amser llawn, mae mwyafrif y disgyblion â medrau sylfaenol sy'n briodol i'w hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn cymhwyso eu medrau meddwl a datrys problemau yn rheolaidd ar draws ystod o feysydd dysgu.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos parch at y Gymraeg ac yn defnyddio iaith lafar naturiol a thafodiaith gyfoethog yr ardal gyda balchder wrth sgwrsio gyda staff, ymwelwyr a chyfoedion. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ynganu'n glir. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau cyfathrebu rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio cystrawen gadarn a geirfa bwrpasol mewn amrediad o gyd-destunau, er enghraifft wrth drafod cylch bywyd pili pala fel rhan o waith thema. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn ddarllenwyr hyderus. Mae ychydig o ddisgyblion sydd yn fwy abl yn darllen yn ystyrlon ac yn barod iawn i fynegi barn am gynnwys y testun.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu medrau llafar yn llwyddiannus. Mae ganddynt falchder yn eu Cymreictod a'u hardal leol. Mae'r rhan fwyaf yn siarad Cymraeg yn gwbl naturiol, er enghraifft wrth drafod a chymharu nodweddion afonydd Cymru. Gallant fynegi eu hunain yn aeddfed yn y ddwy iaith. Enghraifft nodedig o hyn yw disgyblion yn trafod sut aethpwyd ati i ddylunio, creu a gwerthuso model o awyren fel rhan o'u gwaith technoleg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn aeddfed iawn yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn darllen gyda rhuglder a dealltwriaeth gadarn o'r testun. Maent yn gallu galw i gof ffeithiau perthnasol wrth drafod hoff gymeriadau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu huwch fedrau darllen yn llwyddiannus i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth am fywyd Anne Frank yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

O ran eu medrau ysgrifennu, yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol yn unol â'u hoed a'u gallu. Gyda chymorth, mae llawer yn sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir, ac yn defnyddio idiomau a chymariaethau'n bwrpasol i gyfoethogi eu gwaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n rhydd i safon dda, er enghraifft drwy storïau creadigol, dyddiaduron ac wrth ymateb i dasgau 'dydd Llun llanast'. Fodd bynnag, mae gor-ddibyniaeth ar fframiau ysgrifennu yn cyfyngu ar leiafrif o ddisgyblion i ysgrifennu'n annibynnol yn gyson, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, datblygir medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn dda. Maent yn ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau'n gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn ysgrifennu'n hyderus yn y ddwy iaith, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd i drafod effaith cynyddu cost teithio dros bont Hafren, ac wrth greu portread o Gelet yn Saesneg. Mae hyn yn datblygu medrau trawsieithu disgyblion yn dda.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn dangos dealltwriaeth fedrus o fondiau rhif. Maent yn cyfrifo'n hyderus, yn adnabod siapau ac yn trin data'n effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau yn annibynnol, er enghraifft wrth fesur gwrthrychau gan ddefnyddio unedau safonol cywir, ac wrth ddefnyddio gwahanol ddarnau o arian i brynu llaeth yn siop y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datrys problemau rhif yn hyderus. Maent yn adalw ffeithiau rhif i gof yn gyflym, gan gymhwyso'r hyn y maent yn ei ddysgu mewn gwersi mathemateg a'i gymhwyso'n hyderus mewn sefyllfaoedd bob dydd. Enghreifftiau nodedig yw'r ffordd hyderus mae disgyblion hŷn yn datrys problemau wrth iddynt drefnu a chyfrifo cost taith o amgylch Eritrea.

Mae'r bron bob un o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos hyder wrth drafod gwaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn defnyddio amrywiaeth o raglenni TGCh yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau, bas data canghenog a phecynau graffeg yn hyderus ac yn annibynnol, er enghraifft wrth ddidoli trychfilod yn unol â'u priodweddau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio TGCh yn fedrus ac annibynnol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ehangach, er enghraifft wrth ddefnyddio pecyn rheoli i lunio patrwm Celtaidd ac wrth ddefnyddio rhaglen casglu gwybodaeth am nodweddion afonydd Cymru a chyflwyno eu canfyddiadau mewn bas data.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae disgyblion yn chwarae rôl flaenllaw a chynhwysfawr yng ngwaith strategol yr ysgol. Trwy waith llwyddiannus y cynghorau ysgol, mae disgyblion yn cael dylanwad cryf ar bresenoldeb, iechyd a lles o fewn yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n dda at wella presenoldeb. Maent yn deall eu dyletswyddau'n glir wrth hybu a chynnal safonau uchel o bresenoldeb, er enghraifft wrth gasglu a dehongli data presenoldeb yr ysgol gyfan. Mae'r disgyblion yn ymgymryd yn frwdfrydig ac yn aeddfed â'u dyletswyddau o fewn amrediad eang o bwyllgorau'r ysgol. Enghraifft nodedig yw effaith criw 'Twm Tanllyd' i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr ysgol a chyfraniad y 'Dewiniaid Digidol' i ddatblygu medrau TGCh disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at wella medrau iaith a TGCh disgyblion.

Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol iawn tuag at ddysgu. Maent yn dangos cymhelliant uchel ac yn dyfalbarhau i weithio'n annibynnol am gyfnodau estynedig. Maent yn mwynhau'r gwersi ac yn dangos brwdfrydedd yn eu dysgu. Mae bron bob un yn gweithio'n hyderus ac yn effeithiol mewn par neu mewn grŵp ac yn defnyddio strategaethau priodol i oresgyn anawsterau pan fo angen. Maent yn dangos parodrwydd i gefnogi eu cyfoedion mewn gweithgareddau grŵp. Mae hyn yn datblygu eu medrau cydweithio yn llwyddiannus iawn.

Mae safonau ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda. Maent yn dangos parch a chwrteisi at gyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae naws cymunedol ac ethos o barch yn gryfder yn yr ysgol sy'n arwain at safonau uchel o les ac ymddygiad.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran diet a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Atgyfnerthwyd hyn yn llwyddiannus wrth i ddisgyblion ddewis offer cadw'n heini sy'n

cael ei ddefnyddio o fewn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Gwneir defnydd ardderchog o'r ardaloedd allanol ac adnoddau gwych yn gyson sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar les ac iechyd y disgyblion.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol**

Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r modd y mae'r staff yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang, sy'n herio ac yn cefnogi disgyblion yn effeithiol iawn mewn modd creadigol ac ysgogol. Mae'r athrawon yn rhoi cyfleoedd ymestynnol iawn i ddisgyblion gyfrannu at y gwersi. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos brwdfrydedd yn eu gwaith ac yn chwarae rôl weithredol wrth lywio eu dysgu.

Mae gan yr ysgol amrediad da o gynlluniau gwaith effeithiol sy'n sicrhau bod meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen, gofynion y cwricwlwm ac anghenion y maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn derbyn sylw llawn. Trwy gydweithio effeithiol iawn gydag ysgol gyfagos, mae'r ysgol wedi creu cwricwlwm ymarferol ysgogol sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar agwedd disgyblion tuag at eu dysgu. Datblygir medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn naturiol fel rhan annatod o'r cynllunio. Mae'r cynlluniau a'r profiadau diddorol hyn yn sicrhau bod medrau disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn ymhob maes dysgu. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol ysgrifennu'n annibynnol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau meddwl mewn ystod eang o gyd-destunau ymarferol ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at ddatblygiad medrau dysgu annibynnol y disgyblion. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr creadigol a hyderus. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant yr ardal leol a thraddodiadau Cymru yn gyson.

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad llawn a chyfoethog o brofiadau dysgu diddorol i ddisgyblion. Trwy feithrin perthynas waith effeithiol iawn gyda'r disgyblion, mae staff yn creu amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol sy'n sicrhau bod disgyblion yn cyflawni yn unol â'u gallu. Gwneir defnydd effeithiol iawn o adnoddau'r ysgol i gyfoethogi hyn. Mae hyn oll yn cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn eu dysgu, ac yn sicrhau eu bod yn ymroi'n llawn i'w gwaith. Mae cyflwyniadau athrawon yn ddiddorol, yn ymarferol ac yn herio rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae athrawon yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion, ac ar adegau yn eu herio i feddwl a rhesymu eu hatebion ar lefel uwch. Mae staff yn modelu iaith lafar raenus sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg y disgyblion.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wybod pa mor dda maent yn cyflawni a beth sydd angen iddynt ei wella. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau. Defnyddir asesiadau yn bwrpasol i lywio'r camau nesaf yn eu dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn llwyddo i hyrwyddo diwylliant Cymreig a threftadaeth Cymru yn llwyddiannus iawn. Mae'r ethos Cymreig yn bodoli yng nghymuned yr ysgol sy'n cael

ei ledaenu ymhellach i'r ardal leol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn dangos balchder yn eu Cymreictod. Mae'r cyfleoedd creadigol niferus a gaiff y disgyblion i ymweld â chanolfannau yn yr ardal leol, ynghyd â chanu cerdd dant a chystadlu mewn eisteddfodau, yn elfen gref. Mae hyn yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth o Gymru yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn datblygu medrau mynegiannol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

Mae perthynas hynod o gefnogol yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Caiff y rhieni eu hysbysu yn rheolaidd am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol, ac fe gynhelir nifer o nosweithiau ar eu cyfer i egluro datblygiadau cyfredol, er enghraifft er mwyn addysgu'r rhieni am y cwricwlwm newydd, y fframweithiau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae hyn yn sicrhau ymglymiad gwerthfawr y rhieni yn addysg eu plentyn.

Mae'r ysgol yn gwrando ar safbwyntiau rhieni ac yn ymateb yn gefnogol i'w syniadau. Cefnogir hyn yn llwyddiannus gan gymdeithas rhieni ac athrawon wrth iddynt godi arian i brynu adnoddau, fel cyfarpar technolegol ac i ddatblygu'r ardal allanol eang. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion astudio'r amgylchedd fel rhan o waith y dosbarth.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd a monitro lles disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddeallus i gynllunio camau gwelliant ar gyfer y disgyblion. Mae'r athrawon yn cydnabod pwysigrwydd ymyrraeth gynnar, ac yn darparu cefnogaeth ofalgar i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Maent yn cydweithio'n glòs ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, mae cynlluniau effeithiol gyda thargedau clir a mesuradwy er mwyn cefnogi unigolion i gyflawni'n gadarn iawn. Mae'r staff yn cefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn fedrus ac yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol ar eu cyfer.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae gan ran fwyaf y disgyblion wybodaeth dda am yr hyn sydd angen ei wneud i gadw'n iach. Mae'r cyfleoedd buddiol, ynghyd â'r ystod eang o adnoddau allanol pwrpasol ar gyfer sesiynau ymarfer corff, yn cyfrannu'n llwyddiannus at les disgyblion. Mae sesiynau ffitrwydd arbenigol fel 'taekwondo' ac yoga yn cefnogi hyn yn dda.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r staff yn annog disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n barod i helpu eraill ac i godi arian at elusennau. Mae'r cyngor ysgol a'r grŵp eco yn hybu llais y disgybl yn dda. O ganlyniad, maent yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth disgyblion o hawliau'r plentyn. Enghraifft nodedig o hyn yw cyfraniad disgyblion tuag at sefydlu ardal fyfyrio ar dir yr ysgol sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygu eu lles.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn a chlir sy'n seiliedig ar godi safonau a hybu lles a Chymreictod disgyblion. Mae'n rhannu'r weledigaeth gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn hynod lwyddiannus.

Mae aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol iawn, gan gyflawni eu rolau a chefnogi'r pennaeth yn gydwybodol. Maent yn derbyn cyfrifoldebau am arwain agweddau penodol ar waith yr ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar gynnal a chodi safonau disgyblion. Enghraifft dda yw'r modd mae arweinwyr yn rhoi statws i'r iaith Gymraeg ac yn datblygu iaith lafar y disgyblion o oed cynnar.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi eu seilio'n gadarn ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chynnal teithiau dysgu ar agweddau penodol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod eu hysgol yn dda. Maent yn ystyried ac ymateb i sylwadau disgyblion yn rheolaidd. Er enghraifft, fe addaswyd agweddau o'r cwricwlwm i sicrhau cyfleoedd cyfoethog a chreadigol sydd wedi arwain at safonau da yn y celfyddydau ac annibyniaeth disgyblion.

Mae cyswllt agos rhwng blaenoriaethau gwella'r ysgol a chanfyddiadau hunanarfarnu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys blaenoriaethau penodol a chlir. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau blaenorol yn flynyddol, ac mae'r ysgol yn dangos cynnydd parhaus, cyson dros amser.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd perthnasol i ddatblygu'n broffesiynol, er enghraifft trwy rannu arfer dda gyda staff ysgol gyfagos i gynllunio tasgau o fewn gofynion y cwricwlwm newydd. Cyfranna hyn yn effeithiol iawn at gynllunio gweithgareddau a gwersi sy'n ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at eu dysgu. O ganlyniad, mae ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth yn gyfredol ac yn gadarn dda ar draws yr ysgol.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio'u hadnoddau yn effeithiol iawn. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r gyllideb yn ofalus. Maent yn monitro effaith y gwariant ar ddeilliannau'r disgyblion, gan sicrhau ei fod yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol, gan gynnwys y defnydd o grantiau penodol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at y weithdrefn hunanarfarnu, trwy wrando ar ddisgyblion, cynnal teithiau dysgu, dadansoddi data a chraffu ar lyfrau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn herio'r ysgol yn barhaus ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/08/2018